**Cylch Gorchwyl Drafft - [Enw'r Bwrdd i'w gytuno gan y Bwrdd Uchelgais]**

(Mae'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn derm sydd wedi'i ddiffinio yn GA2 a bydd unrhyw enw a fabwysiedir yn cyfeirio at y term hwn)

**Diweddariad: 26 Ionawr 2020**

**Cefndir**

Mae'r Bwrdd Cyflawni Busnes wedi'i hen sefydlu gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ("Y Bwrdd Uchelgais") fel is-grŵp. Yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr, 2021 awgrymodd aelodau'r Grŵp Cyflawni Busnes a chytunodd y Swyddfa Rheoli Portffolio, ei bod hi'n amserol ac yn briodol edrych ar gylch gwaith y Grŵp Cyflawni Busnes. Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â dymuniad y Bwrdd Uchelgais i wahodd y Grŵp Cyflawni Busnes i gynnig dulliau i adeiladu ymhellach ar y berthynas gyda'r sector preifat.

Bydd prosiectau'r Cynllun Twf yn helpu'r Gogledd i oresgyn y rhwystrau i fuddsoddi y mae'r sector preifat yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac hefyd yn rhoi buddsoddiad mewn sectorau gwerth uchel, megis ynni carbon isel a gweithgynhyrchu uwch, gan alluogi i'r rhanbarth adeiladu ar ei gryfderau.

Mae'r dull o gyflawni'r Cynllun Twf yn llwyddiannus wedi'i seilio ar berthynas gref a chydweithredol rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU, partneriaid rhanbarthol a'r sector preifat.

Gyda'r Cynllun Twf Terfynol wedi'i lofnodi ym mis Rhagfyr 2020, mae hi'n bwysig datblygu'r perthnasau a'r strwythurau rhanbarthol i alluogi a meithrin perthnasau cryf a chynhwysol gyda'r sector preifat.

Mae'r Cylch Gorchwyl drafft yma wedi'i ddatblygu ar y cyd rhwng y Bwrdd Uchelgais, y Swyddfa Rheoli Portffolio a chynrychiolwyr y sector preifat sydd wedi braenaru'r tir, gyda'i gilydd a thros nifer o flynyddoedd, i alluogi llofnodi'r Cynllun Twf.

**Statws a Phwrpas**

Sefydlodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru y Bwrdd Cyflawni Busnes fel is-grŵp i ddarparu cyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd i'r Bwrdd Uchelgais a gweithio ar y cyd â'r Swyddfa Rheoli Portffolio i gyflawni'r Cynllun Twf.

**Nodau**

Mae'r Bwrdd Cyflawni Busnes yn rhannu'r un nodau â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a bydd ei waith yn canolbwyntio ar gefnogi'r rhanbarth i gyflawni yn erbyn y nodau allweddol hyn.

Y nodau allweddol i'w cyflawni gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru drwy'r Cynllun Twf yw:

- Adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd.
- Adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd a mynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol.
- Yr ymagwedd yw hyrwyddo twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yr amcanion allweddol i'w cyflawni gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru drwy'r Cynllun Twf yw:

- Creu 3,400 - 4,200 o swyddi ychwanegol net.
- Cynhyrchu £2.0 - £2.5 biliwn mewn GVA ychwanegol net.

- Denu cyfanswm o dros £1bn o fuddsoddiad i economi'r Gogledd.

Mae cyflawni'r nodau a'r amcanion hyn yn dibynnu ar berthynas ddeinamig ac effeithiol gyda'r sector preifat yn lleol yn y Gogledd ond hefyd y tu hwnt i hyn ac i mewn i'r farchnad buddsoddwyr rhyngwladol. Mae'r ffocws wedi newid o fod yn canolbwyntio'n fewnol ar gyflawni'r cynllun twf i gyflawni ac, felly, denu buddsoddiad.

Mae'r holl amcanion yn rhyng-ddibynnol ac wedi'u seilio ar gydweithio da i werthu'r Gogledd i'r byd. Byddwn yn buddsoddi buddsoddiad y Llywodraeth o £240m yn ein portffolio o brosiectau a ddiffinnir o fewn y Cynllun Twf a bydd hyn yn datgloi'r potensial ar gyfer buddsoddiad pellach i ddod i'r rhanbarth gan fuddsoddwyr sector preifat sy'n medru gweld potensial y rhanbarth fel y gallwn ninnau.

**Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau**

Mae'r Bwrdd yn darparu:

**Cyngor strategol** i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar faterion yn ymwneud â rhaglenni Cynllun Twf Gogledd Cymru sef - ynni carbon isel, cysylltedd digidol, tir ac eiddo, arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel, bwyd-amaeth a thwristiaeth. Hefyd, ceisir cyngor yn y meysydd ehangach o ddatblygu'r economi, trafnidiaeth a sgiliau.

Cefnogaeth i hyrwyddo'r Cynllun Twf yn rhagweithiol a cheisio **ymrwymiad a chyfranogiad** yr holl sectorau allweddol wrth ddatblygu a chyflawni prosiectau'r Cynllun Twf. Dylai'r bwrdd gasglu a rhannu gwybodaeth, tystiolaeth a dadansoddiad am y farchnad, a hynny'n annibynnol, a fydd yn cyfrannu at fonitro cynnydd a gwerthuso effaith prosiectau'r Cynllun Twf, ac yn cefnogi hynny.

Cyfarwyddyd ar sut i ddenu **buddsoddiad sector preifat** i'r Gogledd. Y ddwy raglen allweddol sydd angen buddsoddiad sylweddol gan bartneriaid yn y sector preifat yw Tir ac Eiddo ac Ynni Carbon Isel. Bydd angen ymgynghori agos ac ymagwedd wedi'i chynllunio i dargedu'r buddsoddiad angenrheidiol hwn sydd gyfwerth â dros £700m.

Mae'r Bwrdd:

- yn darparu her strategol i sicrhau bod adnoddau a chyllid yn cyd-fynd i gyflawni yn erbyn nodau ac amcanion y Cynllun Twf.
- yn darparu adfocatiaeth a chefnogaeth o fewn eu rhwydweithiau a'r tu hwnt, gan ddefnyddio'r holl sianeli priodol sydd ar gael iddynt wneud hynny.
- yn ymgysylltu ac yn dylanwadu ar Lywodraethau i yrru datblygiad polisi mewn meysydd strategol allweddol. Caiff yr ymagwedd hon ei chytuno a'i chydlynu rhwng y Cadeirydd a Chyfarwyddwr y PMO er mwyn helpu i gyflawni'r deilliannau a ddymunir.
- yn darparu mewnwelediad, data a chyngor ynghylch meysydd blaenoriaeth y rhanbarth mewn busnes a/neu lle mae materion yn bodoli.
- yn hwyluso cyflwyniadau, fel sy'n briodol, i fuddsoddwyr posib sy'n chwilio am brosiectau addas i fuddsoddi ledled y Gogledd.
- yn annog ac yn hwyluso cyfathrebu a rhyngweithio rhwng y gymuned fusnes (lleol a'r tu hwnt) a'r PMO. Rhannu sicrwydd cyfochrog ac adnoddau i adeiladu dealltwriaeth o'r hyn sydd gan y Gogledd i'w gynnig a sut mae'r Cynllun Twf yn gwneud hyn hyd yn oed yn fwy deniadol.
- yn cefnogi ac yn cymryd rhan yn y strategaeth a'r cynllun marchnata ar gyfer y Cynllun Twf. Yn rhannu ac yn hoffi'r negeseuon cyfryngau cymdeithasol allweddol ac yn rhoi blas personol ar pam a sut y bydd ein cyfleoedd a'n buddsoddiadau Cynllun Twf yn gwneud gwahaniaeth.

**Bwrdd Uchelgais Economaidd**

Mae Cytundeb Llywodraethu 2 "GA2" yn crynhoi cyfansoddiad a rôl y Bwrdd Cyflawni Busnes, fel Is-grŵp o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Yn unol â GA2, caiff cyfansoddiad a rôl y cwrdd ac unrhyw ddiwygiadau eu cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais, a'u cytuno ganddo.

Bydd y Bwrdd Uchelgais yn ystyried yn llawn ac yn derbyn unrhyw gyngor neu her gan y Bwrdd Cyflawni Busnes. Caiff unrhyw argymhellion ffurfiol a wneir gan y Bwrdd Cyflawni Busnes i'r Bwrdd Uchelgais eu cyflwyno mewn adroddiad ysgrifenedig a gaiff ei ystyried mewn cyfarfod o'r Bwrdd a chaiff yr ymateb a'r rhesymau eu cofnodi a'u cyfathrebu.

**Cyfarfodydd**

Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bob deufis ar-lein am ddwy awr. Bydd y trefniadau hyn yn eu lle hyd nes y bydd hi'n ddiogel ac yn briodol i adolygu'r trefniadau ac ystyried cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Caiff rhaglenni'r cyfarfodydd, sy'n amlinellu'r busnes sydd i'w drafod, eu cytuno gyda'r cadeirydd a dylid eu dosbarthu i aelodau'r Swyddfa Rheoli Portffolio ddim hwyrach na thri diwrnod clir (ac eithrio materion brys) cyn diwrnod y cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth**

Darperir y rôl ysgrifenyddiaeth gan y Swyddfa Rheoli Portffolio ar ran y Bwrdd Uchelgais.

**Cadeirydd**

Caiff y Cadeirydd ei benodi gan y Bwrdd Cyflawni Busnes yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol.

Bydd y Cadeirydd yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwr Portffolio, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais a bydd yn darparu cyngor perthnasol o ansawdd uchel yn unol â phwrpas a chyfrifoldebau'r bwrdd.

Bydd y Cadeirydd yn hyrwyddo barn y Bwrdd i'r Bwrdd Uchelgais a bydd yn arwain y fforwm wrth ddatblygu a chynnal perthnasau effeithiol rhwng y Bwrdd Uchelgais, ei is-bwyllgorau a'r sector preifat.

Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn aelod ymgynghorol o'r Bwrdd Uchelgais a bydd ganddynt, mewn partneriaeth, rôl allweddol wrth ddarparu mewnwelediad a chyfeiriad i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, mewn perthynas â phenderfyniadau sydd eu hangen i gryfhau economi'r Gogledd.

**Aelodaeth**

Bydd aelodau'n allblyg ac â chysylltiadau da y tu hwnt i ranbarth y Gogledd. Bydd hyn yn galluogi iddo ddod ag arbenigedd a buddsoddiad posib i'r rhanbarth.

Caiff aelodau newydd eu recriwtio mewn ffordd agored a thryloyw, ac yn unol â'r meini prawf dethol a ddiffinnir isod. Cânt eu henwebu a'u cynnig gan y Bwrdd Cyflawni Busnes cyfredol, a'u cadarnhau gan y Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Bwrdd Uchelgais. Caiff penodiad aelodau ei gadarnhau a'i gyfathrebu gan y Bwrdd Uchelgais.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu ar sail wirfoddol ac, ar y cyd, dylai'r aelodaeth:

- gynrychioli'r holl sectorau perthnasol y rhoddir sylw iddynt gan y Cynllun Twf.
- cynnwys cynrychiolaeth gan y sector menter gymdeithasol a gwirfoddol/trydydd sector.
- ystyried sut mae llais rhanddeiliaid/cyflogwyr strategol allweddol megis y Parc Cenedlaethol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Thai yn cael eu clywed.
- cynnwys uchafswm o 18 aelod.

Wrth benodi aelodau, rhoddir ystyriaeth i sefydlu aelodaeth sydd, gyhyd ag sy'n bosib, yn gytbwys yn gyffredinol fel ei bod yn adlewyrchu ac yn cynrychioli holl ardal ddaearyddol y Gogledd, ei sectorau a'i chymunedau busnes a bydd angen ystyried hyn yn ystod y broses benodi.

**Cyllideb**

Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn derbyn cyllideb flynyddol gychwynnol o £20K i gefnogi a hwyluso gwaith y Bwrdd Cyflawni Busnes. Dylid defnyddio'r gyllideb mewn ffordd sy'n cefnogi ei waith i gyflawni'r deilliannau a ddisgrifir yn ei Gylch Gorchwyl. Gellir defnyddio'r gyllideb ar gyfer digwyddiadau, comisiynu ymchwil, gwaith arolwg neu weithgareddau cyffelyb. Bydd yr holl wariant yn cael ei weinyddu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Portffolio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd.

**Gwrthdaro Buddiannau**

Er mwyn caniatáu i'r Bwrdd Cyflawni Busnes ymgymryd â'i holl swyddogaethau, gwneir gwahaniaeth clir rhwng y rheini sy'n ymwneud â datblygu prosiectau penodol a'r rheini sy'n paratoi argymhellion am y prosiectau hynny i'r Bwrdd Uchelgais. Gweithredir system gadarn o ddatgan gwrthdaro buddiannau. Yn ogystal, mae Ymgynghorwyr y Bwrdd Uchelgais wedi'u rheoli gan God Ymddygiad GA a'r Polisi Gwrthdaro yng nghyswllt buddiannau personol. Disgwylir i aelodau a benodir i'r Bwrdd Cyflawni Busnes gydymffurfio â rhai darpariaethau.

**GA2**

Fel rhan o benodiad pob parti i'r Bwrdd Cyflawni Busnes, byddant oll yn cydnabod ac yn derbyn telerau GA2 a bydd disgwyl iddynt gydymffurfio â'r rheini sy'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Gymal 22 (Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau).